Cylch Meithrin Seiont a Pheblig

Adroddiad a Datganiadau Ariannol

Blwyddyn hyd 31ain Mawrth 2024

Rhif Elusen Gofrestredig: 1195099

Cylch Meithrin Seiont a Pheblig

Gwybodaeth Cyffredinol

Ymddiriedolwyr

Ms Lowri Thomas Jones (Cadeirydd)
Ms Elen Medi Morgan
Mrs Mererid Mair Williams
Ms Melanie Ann Jones

Trysorydd / Treasurer

Mrs Mererid Mair Williams (Trysorydd)
Ms Eleri Davies (Is-Drysorydd)

Swyddfa Gofrestredig

Cylch Meithrin Seiont a Pheblig, Canolfan Noddfa, Cil Peblig, Caernarfon, Gwynedd

Cyfrifydd

A. Hughes-Jones, Dyson a'i Cwmni
Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1NS.

Bancwyr

HSBC Bank Plc

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr *am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2024*

Mae'n bleser gan yr ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu i 31ain Mawrth, 2024. Mae'r adroddiadau wedi eu paratoi yn unol a chyfansoddiad yr elusen darpariaethau yn y Datganiad o Ymarferion Cymeradwy – "Cyfrifo ac Ymadrodd gan Elusennau" ac yn cydymffurfio gyda'r gyfraith berthnasol.

Amcanion a Gweithgareddau

Mae'r elusen yn gweithredu dan gyfansoddiad wedi eu greu gan Fudiad Ysgolion Meithrin (MYM) sydd yn cael ei ddefnyddio gan bob meithrinfa sydd yn aelod o MYM.

Mae ymddiriedolwyr yn cael eu apwyntio pob blwyddyn yn y Cyfarfod Blynyddol drwy gytundeb y pwyllgor rheoli. Mae apwyntiad ymddiriedolwyr ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cael ei wneud trwy gytundeb pwyllgor rheoli.

Prif amcan yr elusen yw rhoi addysg cyn ysgol i blant rhwng dwy a hanner a phedair oed am ddeg awr a dau ddeg pum munud yr wythnos.

Strwythur a Threfniant

Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan bwyllgor o chwech sydd fel arfer yn rieni plant sydd yn mynychu'r ysgol. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae pennaeth yr ysgol a dwy aelod o'r staff yn mynychu'r cyfarfodydd. Nid oes gan aelodau'r staff bleidlais yn y pwyllgor. Mae gweithgareddau dydd i ddydd yr elusen yn nwylo'r staff cyflogedig sydd yn cael pwyllgor yn fisol.

Perthynas ag elusennau eraill

Mae'r ysgol yn aelod o Fudiad Ysgolion Meithrin, sydd yn elusen fydd yn cefnogi pob Meithrinfa Gymraeg gyda chyngor a grantiau.

Datblygiadau Gweithgareddau a'r hyn a Gyflawnwyd

Roedd gan yr ysgol nifer arferol o blant, tua chwech ar hugain yn sesiwn y bore a'r prynhawn gyda llawer mwy ar y gofrestr aros.

Nid oedd newidiadau sylweddol yng ngweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, ac nid oes unrhyw ddigwyddiadau sy'n effeithio'r elusen wedi digwydd ers ddiwedd y flwyddyn.

Nid oes newidiadau wedi eu trefnu; blaenoriaeth yr ymddiriedolwyr yw i barhau i addysgu plant cyn-ysgol yr ardal mewn awyrgylch gynnes a chyfeillgar.

Cyfraniad Gwirfoddolwyr

Ar adegau, yn enwedig yn ystod tymor yr haf caiff yr elusen gymorth gan rai o'r rhieni,sydd yn werthfawr iawn. Mae'r elusen yn ffodus i dderbyn cymorth gan wirfoddolwyr eraill ac mae'r ymddiriedolwyr yn ddiolchgar iawn am eu help. Mae'r gwirfoddolwyr i gyd yn derbyn cyngor gan y Pennaeth ac aelodau'r pwyllgor am beth a ddisgwylir ganddynt.

Cylch Meithrin Seiont a Pheblig

Adroddiad yr ymddiriedolwyr (parhad)

Codi arian

Cafodd yr elusen flwyddyn lwyddiannus gyda chodi arian, a chodwyd swm o £2,291. Cyflawnwyd hyn trwy drefnu disgo, thripiau, cerdyn peldroed, raffl a chalendr. Mae'r elusen wedi eu lleoli mewn ardal difreintiedig ac mae nifer o rieni'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa ar gefnogaeth incwm, felly fe fydd yn anodd casglu symiau mawr o arian pob amser, ond mae'r ymddiriedolwyr yn hapus iawn gyda'r swm a gasglwyd yn ystod y flwyddyn.

Adolygiad risg

Mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu y risgiau mwyaf y mae'r elusen yn wynebu, yn arbennig rhai sydd wedi effeithio ar weithgareddau a chyllid yr elusen, ac maent yn fodlon fod systemau mewn lle i leddfu ein datguddiad i'r risgiau mwyaf.

Polisi a chronfeydd

Cedwir cronfeydd at gostau rhedeg dydd i ddydd yr elusen sydd i fod yn ddigonol am wariant pedwar mis os bydd i'r incwm gyffredinol orffen. Roedd cronfeydd o £15,749 yn y banc ar 31ain Mawrth 2024.

Ymddiriedolwr Awdurdodedig: Ms Lowri Thomas Jones – Cadeirydd y Bwrdd

Cafodd yr Adroddiad ei chymeradwyo:

Llofnod: .....

Ms Lowri Thomas Jones - Cadeirydd y Bwrdd

Adroddiad yr Arweinydd *am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2024*

STAFF 2023 / 2024

- Karen Evans - Arweinydd
- Wendy Jones – Is-Arweinydd, Arweinydd Ti a Fi
- Angela Roberts - Cynorthwyydd
- Ffion Roberts- Cynorthwyydd
- Ffion Ann Jones – Cynorthwyydd
- Tiffany Coulston-Edwards – Cymorthydd dwylo ychwanegol
- Emma Parry – Aprentis – Gweithio tuag at lefel 3 drwy gynllun Hyfforddi yr Urdd
- Melanie Jones – Unigolyn Cyfrifol rhan o'r flwyddyn
- Bethan Glyn – Unigolyn Cyfrifol rhan o'r flwyddyn

Hoffai'r staff, plant a pwyllgor y Cylch ddymuno yn dda iawn i Claire Griffiths wnaeth adael yn ystod y flwyddyn i ddilyn hyfforddiant bud-wragaeth.

Pwyllgor 2023/ 2024

Cadeirydd	Lowri Thomas Jones	**Is-Gadeirydd**	Maelan Gwilym
Ysgrifennydd	Nicky Thomas	**Is-Ysgrifennydd**	Alison Edwards
Trysorydd	Mererid Mair Williams	**Is-Drysorydd**	Eleri Davies
Person Cofrestredig	Melanie Jones / Bethan Glyn		

Hyfforddiant

Mae holl staff y cylch wedi bod yn brysur eto'r flwyddyn hon gyda hyfforddiant newydd:

- Cymorth Cyntaf Pediatrig
- Datblygiad sgiliau iaith
- Gofalu'n Ddiogel a Chwythu'r bib
- Cwrs Diogelu Lefel 3; Bethan Glyn, Karen Evans a Wendy Jones
- Cwrs Diogelu Lefel 2; Angela Roberts, Ffion Roberts, Ffion Jones, Tiffany Coulston, Emma Parry a Mererid Williams
- Elklan lefel 2/3
- Makaton
- Hylendid Bwyd
- Trosglwyddo
- Gwybodaeth AGC
- Cynllunio 'Yn y Foment'
- Lleferydd, iaith ac anghenion arbennig
- ADY

Mae blwyddyn arall bron â dod i ben! Rydym wedi cael blwyddyn hapus a phrysur arall yn Cylch Meithrin Seiont a Pheblig gyda niferoedd y plant yn cynyddu gyda bob tymor. Erbyn Tymor yr Haf mae 26 o blant yn y ddwy sesiwn ddyddiol a llawer mwy ar y gofrestr. Mae'r cylch yn gefnogi'r Cynllun Gwen a mae pob plentyn yn cymryd rhan i olchi dannedd yn ystod y sesiwn. Mae'r Cylch hefyd yn dilyn Chynllun Cyn Ysgol Iach.

Rydym wedi cofrestru gyda Dechrau'n Deg am flwyddyn arall; mae hyn yn rhoi llawer o gyfleoedd i rai plant fynychu'r cylch am ddim a chael diwrnodau hwyl i'r teulu yn Noddfa a Phlas Pawb. Drwy

Cylch Meithrin Seiont a Pheblig

Adroddiad yr Arweinydd (parhad)

Ddechrau'n Deg fe fydd staff y Cylch yn cael cynnig mynd ar hyfforddiant newydd a chael adnoddau newydd yn flynyddol. Cafodd y Cylch grant sylweddol gan Dechrau'n Deg i ddatblygu a chreu ardal

corfforol newydd tu allan. Mae'r plant wedi treulio llawer o amser yn datblygu sgiliau corfforol mawr wrth defnyddio yr ardal newydd. Diolch i gwmni Playquest am osod y lle chwarae.

Mae'r plant wedi cael sesiynau Camau Cerdd gyda'r staff unwaith yr wythnos. Mae hyn wedi helpu'r plant i ddatblygu eu dawn gerddorol ac i adnabod tôn a rhythm

Cafwyd trip diwedd blwyddyn i Parc Sipsiwn. Cafodd y plant a rhieni ddiwrnod llawn hwyl

Mae'r Cylch wedi derbyn Grant gan Dechrau'n Deg, i gael adnoddau chwarae yn yr awyr agored.

Hoffai'r Pwyllgor a'r Staff ddiolch i'r rhieni am eich amynedd a'ch cefnogaeth i'r Cylch. Diolch hefyd am bob rhodd ariannol. Diolch i Ceren a staff Mantell Gwynedd am weinyddu system PAYE y Cylch; mae'n wasanaeth heb ei ail!

Grantiau rydym wedi eu derbyn y flwyddyn hon

- Tanwariant Dechrau'n Deg i brynu adnoddau
- Grant Mudiad Meithrin

Mae'r Cylch hefyd yn gweithio gyda:

- Easy Fundraising

Codi Arian

Pob blwyddyn yr ydym yn annog y rhieni, plant a'r pwyllgor i weithio yn galed i godi arian tuag at y gwaith. Cawsom diwrnod codi arian gyda rhieni wrth fynd am dro o amgylch Castell Caernarfon, a darfod y daith yn maes Chwarae. Roedd hyn yn rhoi cyfle ar ddechrau'r tymor i rieni gyfarfod ei gilydd.

Trefnodd y staff p'nawn Ffair Nadolig, roedd yn rhoi cyfle i'r plant ymweld a Sion Corn.

Trefnodd y staff a'r Pwyllgor Ddiwrnod Hwyl Haf a Raffl Fawr yn Mis Mehefin. Diolch i bawb wnaeth gefnogi a helpu i gasglu noddwyr. Trefnodd y Cylch hefyd:

- Gwerthu addurniadau a calendrau Nadolig./Ffrâm Sul y Mamau
- Ail Gylchu dillad drwy brosiect Bin Dillad Antur Waunfawr.

Diolchiadau

Hoffwn gloi gan ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff, rhieni a'r pwyllgor am eich holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Diolch arbennig i Bwyllgor Gwaith Canolfan Noddfa sydd wedi bod yn gefnogol dros ben. Diolch i'r gofalwr am yr holl waith ychwanegol yn y cylch.

Karen Evans - Arweinydd

Datganiad o Weithredoedd Ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant)
am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2024

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	2024 £	2023 £
Adnoddau cyllid				
Gweithgareddau i hyrwyddo amcanion yr elusen:				
Grantiau	121,133	-	121,133	100,633
Gweithgareddau i godi arian:				
Ffioedd y Plant	9,138	-	9,138	11,561
Codi arian	2,298	-	2,298	2,341
Grantiau Covid:				
Cynllun Cadw Swyddi	-	-	-	
Llog derbyniadwy	226	-	226	17
Cyfanswm adnoddau i mewn	132,795	-	132,795	114,552
Gwariant elusennol	134,816	-	134,816	111,909
Gwariant i greu cronfeydd	-	-	-	224
Cyfanswm gwariant	134,816	-	134,816	112,133
Incwm / (Colled) net am y flwyddyn	(2,021)	-	(2,021)	2,419
Cronfeydd ar 1af o Ebrill 2023	26,198	-	26,198	23,779
Cronfeydd ar 31am Mawrth 2024	24,177	-	24,177	26,198

Mantolen *ar 31ain Mawrth 2024*

	Nodyn	2024 £	2023 £
Buddiannau cyfredol			
Asedau Sefydlog		2,275	2,544
Derbynwyr a Blaendaliadau		10,914	9,056
Arian yn y banc ac mewn llaw		17,671	17,487
		30,860	29,087
Rhwymedigaethau			
Croniadau		1,926	1,928
Treth ac Yswiriant Cenedlaethol		4,757	961
		6,683	2,889
Asedau cyfredol net		24,177	26,198
Cronfeydd			
Cronfeydd anghyfyngedig		24,177	26,198
Cronfeydd cyfyngedig		-	-
		24,177	26,198

Asedau Anariannol

Mae'r elusen yn preswylio canolfan cymdeithasol yng Nghaernarfon.

Mae gan yr elusen offer a dodrefn (heb wybod y gost) yn cynnwys byrddau a chadeiriau, uned eistedd, ty chwarae, sglefren fawr, teganau a siglen, tywod a byrddau dwr, offer cegin a rhestr eang o deganau llai, llyfrau a offer dylunio. Mae'r offer mwyaf mewn cyflwr gweddol dda ac oddeutu pymtheg mlwydd oed.

Ar ran y pwyllgor rheoli

....

Ms Lowri Thomas Jones - Cadeirydd Mrs Mererid Mair Williams – Trysorydd

Nodiadau parthed y datganiadau ariannol *am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2024*

1. Polisïau cyfrifyddol

a) Confensiwn cyfrifeg

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu darparu dan y confensiwn cost hanesyddol. Maent wedi eu paratoi i adlewyrchu'r Datganiad Ymarferion Cymeradwy "Cyfrifo ac Ymadrodd gan Elusennau" ac yn cydymffurfio gyda'r gyfraith perthnasol.

b) Cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw'r cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb gael eu clustnodi ar gyfer unrhyw bwrpas penodol arall.

2. Grantiau a dderbyniwyd

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Mudiad Ysgolion Meithrin	-	-	-	-
Cynllun Cyfeirio	-	-	-	-
Cyngor Gwynedd	17,905	-	17,905	16,815
Dechrau'n Deg	70,562	-	70,562	70,517
Cynllun Gofal Plant 30 Awr	4,148	-	4,148	313
Grantiau eraill	13,518	-	13,518	12,988
Grant Adnodd	15,000	-	15,000	-
	121,133		121,133	100,633

Nodiadau parthed y datganiadau ariannol *am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2024*

3. Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd

	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Costau Elusennol		
Cyflogau	108,687	99,115
Offer a defnyddiau	17,218	1,030
Adnewyddu a Thrwsio	706	3,885
Costau swyddfa	705	780
Llogi ystafell	5,140	5,200
Cyfrifon	492	492
Ffioedd y Banc	76	74
Dibrisiant	269	304
Costau eraill	1,523	1,029
Costau i Greu Cronfeydd		
Costau Trip	-	224
	134,816	112,133

3. Costau staff

	2024 £	2023 £
Cyflogau	100,487	96,044
Yswiriant Cenedlaethol	3,397	1,633
Pensiwn	4,803	1,438
	108,687	99,115

Ar gyfartaledd, nifer y gweithwyr llawn amser oedd 6 (2023 – 6). Ni dderbyniodd unrhyw aelod o staff gyflog dros £50,000 (2023 – Dim).

Ni dalwyd unrhyw gyflog i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (2023 – dim). Ni ad-dalwyd unrhyw gostau ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (2023 – Dim).